Dyfarnwyd Contract IDVA Dyfed Powys i bum asiantaeth cam-drin ddomestig arbenigol.

Yn ddiweddar, fe wnaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, ynghyd â'r pedwar Awdurdod Lleol yn rhanbarth Dyfed-Powys, (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Benfro a Chyngor Sir Powys), ail-dendro ar gyfer y Gwasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Comisiynir y gwasanaeth trwy gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Grant Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru (VAWDASV). Mae'r Bartneriaeth VAWDASV Ranbarthol yn cynnwys y pedwar Awdurdod Lleol, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hwyl Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ogystal â'r darparwyr arbenigol a gomisiynir ar draws y rhanbarth.

Mae pum asiantaeth cam-drin domestig arbenigol, sef Calan DVS, Carms DAS, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, Threshold DAS a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru wedi cydweithio i ffurfio partneriaeth Dal I Godi.

Mae gan yr asiantaethau cam-drin domestig arbenigol sy'n rhan o Dal I Godi 148 mlynedd o brofiad ar y cyd o ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig. Bydd ffocws Dal I Godi ar ymyrraeth gynnar, atal, amddiffyn a chefnogi unigolion a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig, gan ddefnyddio model gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio i sicrhau profiad cyfannol, effeithlon, diogel, person-ganolog, wedi'i arwain gan anghenion ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.

Prif ddiben y gwasanaeth IDVA yw mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu, er mwyn sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Wrth ddarparu gwasanaeth i ddioddefwyr sy'n oedolion, bydd pob gofal yn cael ei gymryd i sicrhau y darperir cyngor ac atgyfeiriad priodol i ddiogelu unrhyw blant dibynnol. Gan wasanaethu fel prif bwynt cyswllt dioddefwr, bydd IDVAs yn gweithio gyda'u defnyddwyr gwasanaeth o'r pwynt argyfwng i asesu lefel y risg, trafod yr ystod o opsiynau addas a datblygu cynlluniau diogelwch a chefnogaeth unigol. Bydd y gwasanaeth yn annibynnol, yn gynhwysol, yn gyfrinachol ac yn hyblyg i fodloni holl amgylchiadau unigol gan sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.

Bydd Dal I Godi hefyd yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r Comisiynydd i helpu i lunio cyfeiriad y dyfodol ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Nyfed-powys.

Dywedodd Michelle Whelan, Prif Weithredwr Calan: "Mae Calan DVS a'n partneriaid o fewn consortiwm Dal I Godi yn falch iawn o fod wedi llwyddo i ennill contract IDVA sy'n cwmpasu ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fel y sefydliad arweiniol ar gyfer y contract hwn, bydd Calan DVS yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid arbenigol sydd oll â dealltwriaeth ddofn o effaith a'r angen am wasanaethau ymatebol ar gyfer dioddefwyr risg uchel cam-drin domestig. Wrth i ni symud ymlaen gyda'r prosiect, blaenoriaeth y bartneriaeth fydd sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch, yn cael ei arwain gan anghenion ac yn cael ei lywio gan drawma ac felly'n sicrhau ymhellach bod y gwasanaethau'n diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio."

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn "Rwy'n falch o gyhoeddi ein bod yn buddsoddi yn y gwasanaeth IDVA cydweithredol rhanbarthol newydd Dal I Godi.

Mae anghenion dioddefwyr wrth galon fy ngwaith fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a bydd y bartneriaeth hon yn darparu gwasanaethau hanfodol i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig risg uchel, y mae llawer ohonynt yn arbennig o agored i niwed. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod dioddefwyr a'u teuluoedd yn cael y cymorth angenrheidiol i'w helpu i wella ac arwain at ddyfodol heb gamdriniaeth.

Mae'r buddsoddiad hefyd yn caniatáu i ni weithio mewn partneriaeth tuag at gyflawni blaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, gan sicrhau'n benodol bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod a'u cefnogi."

Fel partneriaeth, byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau lansio, a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu drwy gydol mis Mawrth.